# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

**HELD AT YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE**
**ON DYDD MAWRTH, 12 EBRILL 2016**
**AT 2.00 PM**

**PRESENT**: Councillor P Lloyd (Cadeirydd) Presided

| Councillor(s) | Councillor(s) | Councillor(s) |
|---|---|---|
| A C S Colburn | D W Cole | A M Cook |
| M H Jones | E T Kirchner | I M Richard |
| P B Smith | M Thomas | D W W Thomas |
| T M White | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb.**

Councillor(s): C L Philpott

96 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â darpariaethau Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd A C S Colburn – Cofnod Rhif 99 - Cais i gofrestru tir a adwaenir fel Picket Mead, Newton, Abertawe'n faes tref neu bentref. - Personol a rhagfarnol gan i mi gymryd rhan yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus felly gadewais cyn y drafodaeth.

Y Cynghorydd A M Cook – Cofnod Rhif 98 - Cais Cynllunio 2008/0512 – (Eitem 7 ar yr agenda) - Personol gan fy mod yn Aelod Ward.

Y Cynghorydd M H Jones – Cofnod Rhif 100 - Cais Cynllunio 2015/2527 (Eitem 1) - Personol a rhagfarnol gan fod rhai o'r gwrthwynebwyr yn ffrindiau personol ac agos - gwnes ddatganiad dan baragraff 14(2) y Côd a gadewais cyn y drafodaeth.

Y Cynghorydd M Thomas – Cofnod Rhif 100 - Cais Cynllunio 2015/0055 (Eitem 2) - Personol gan fy mod yn adnabod yr ymgeisydd.

97 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2016 yn gofnod cywir.

98 **EITEMAU I'W GOHIRIO / TYNNU'N ÔL.**

Gohiriwyd yr eitem ganlynol gan Swyddogion am y rhesymau a nodwyd isod:

Eitem 7 ar yr agenda - Cais Cynllunio 2008/0512 - Tir oddi ar Heol Brithwen, Waunarlwydd, Abertawe - Datblygiad Preswyl (amlinelliad).

Caniatáu i'r ymgeisydd gyflwyno mwy o wybodaeth hyfywedd i'w hystyried.

99 **CAIS AM GOFRESTRU TIR A ADWAENIR FEL PICKED MEAD, NEWTON, ABERTAWE YN FAES TREF NEU BENTREF.**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd adroddiad a oedd yn amlinellu canfyddiadau ac argymhellion yr Arolygydd.

Cafodd hanes cefndir y cais, y profion cyfreithiol a wnaed, yr ymgynghoriad, y sylwadau a dderbyniwyd o blaid ac yn erbyn, yr ymchwiliad a gynhaliwyd, y cyngor cyfreithiol a gafwyd a'r cylch gwaith, y canfyddiadau a chasgliad yr Arolygydd eu hamlinellu a'u cyfleu i'r pwyllgor.

Anerchwyd y pwyllgor gan Mr Victor Collier a siaradodd o blaid y cais.

**PENDERFYNWYD**

1) y dylid gwrthod y cais i gofrestru'r uchod.

2) Ni ddylai unrhyw ran o dir y safle ymgeisiol gael ei hychwanegu at y Gofrestr Meysydd Tref neu Bentref o dan Adran 15 Deddf Tiroedd Comin 2006.

100 **PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO O DAN DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990..**

Cyflwynodd y Pennaeth Adfywio Economaidd a Chynllunio gyfres o geisiadau cynllunio.

Adroddwyd am newidiadau i'r atodlen hon ac fe'u nodir isod gan (#).

**PENDERFYNWYD**

**(1)** y dylai'r ceisiadau cynllunio a enwir isod gael eu **CYMERADWYO** yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad a/neu a nodwyd isod:

**#(Eitem 1) Cais Cynllunio. 2015/2527 - 438 Heol Gŵyr, Cilâ, Abertawe.**

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Diwygio Amodau 3 a 4 ac ychwanegu'r frawddeg ganlynol at bob amod:

Bydd gosod yr holl gyfarpar fel rhan o'r cynllun y cytunwyd arno wedi hyn yn cael ei gynnal a'i weithredu yn unol â'r manylion y cytunwyd arnynt tra bo'r defnydd ohonynt yn parhau.

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y Pwyllgor gan Simon Peake (asiant).

Anerchwyd y Pwyllgor gan y Cynghorydd J W Jones (Aelod Lleol) a siaradoedd yn erbyn y cais.

**#(Eitem 2) Cais Cynllunio. 2016/0055 - Tir i'r gorllewin o Heol Victoria, Heol Victoria, Tregŵyr, Abertawe.**

Cymeradwywyd y cais yn amodol ar ddileu amod 12.

101 **HEOL TAVISTOCK A HEOL PARC WERN, SGETI, ABERTAWE - ADRODDIAD CADARNHAU GORCHYMYN CADW COED 599.**

Cyflwynodd y Pennaeth Adfywio Economaidd a Chynllunio adroddiad a oedd yn gofyn am ystyriaeth o'r cadarnhad, fel gorchymyn llawn, Orchymyn Cadw Coed dros dro 599 - Heol Tavistock a Heol Parc Wern, Sgeti, Abertawe.

Amlinellwyd yr hanes cefndir, arfarniad o'r safle, y gwrthwynebiadau a'r sylwadau a dderbyniwyd yn yr adroddiad.

Anerchwyd y Pwyllgor gan Sarah Andrews (gwrthwynebydd) o ran 10 Heol y Frenhines, Sgeti.

**PENDERFYNWYD** y dylai'r mater gael ei ohirio nes cynnal ymweliad safle â 10 Heol y Frenhines, Sgeti.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.20 pm

**CADEIRYDD**